# Diwrnod Cofio'r Holocost

Dysgu o hil-laddiad
- er budd dyfodol gwell

HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

*Learning from genocide -*
*for a better future*

# Beth yw Diwrnod Cofio'r Holocost?

Mae Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost (HMDT) yn ein hannog i gofio mewn byd sydd wedi'i greithio gan hil-laddiad. Rydyn ni'n hyrwyddo ac yn cefnogi Diwrnod Cofio'r Holocost (HMD) - y diwrnod rhyngwladol ar 27 Ionawr i gofio'r chwe miliwn o Iddewon a lofruddiwyd yn ystod yr Holocost, ynghyd â'r miliynau o bobl eraill a laddwyd dan erledigaeth y Natsïaid yn erbyn grwpiau eraill, ac mewn achosion mwy diweddar o hil-laddiad yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Roedd yr Holocost yn bygwth gwead gwareiddiad, a rhaid parhau i wrthsefyll hil-laddiad bob dydd. Hyd yn oed yn y DU, rhaid i bob un ohonom herio rhagfarn ac iaith casineb o bob math.

Mae Diwrnod Cofio'r Holocost ar gyfer pawb. Bob blwyddyn ledled y DU, mae miloedd o bobl yn dod at ei gilydd i ddysgu mwy am y gorffennol a gweithredu i greu dyfodol mwy diogel.

Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dyst i'r rhai a ddioddefodd hil-laddiad, ac yn anrhydeddu'r goroeswyr a phawb y mae eu bywydau wedi newid y tu hwnt i bob dirnadaeth.

HOLOCAUST MEMORIAL DAY 27/1

# Beth yw hil-laddiad?

Raphael Lemkin, cyfreithiwr o Wlad Pwyl, ddatblygodd y cysyniad o hil-laddiad am y tro cyntaf yn y 1930au, ond ni ddaeth hil-laddiad yn drosedd dan gyfraith ryngwladol tan ar ôl 1948, wedi achosion llys Nuremberg.

Mae’r Confensiwn ar Atal a Chosbi Trosedd Hil-laddiad yn diffinio hil-laddiad fel: ‘unrhyw un o’r gweithredoedd canlynol a gyflawnwyd gyda’r bwriad o ddinistrio, naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol, grŵp cenedlaethol, ethnig, hiliol neu grefyddol, megis:

- lladd aelodau’r grŵp
- achosi niwed corfforol neu feddyliol difrifol i aelodau’r grŵp
- mynd ati’n fwriadol i achosi amodau bywyd y grŵp gyda’r nod o achosi ei ddinistr corfforol naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol
- gosod mesurau bwriadol i atal genedigaethau o fewn y grŵp
- gorfodi plant y grŵp i gael eu trosglwyddo i grŵp arall

Llun: © Sean Gallup / Getty

# Deg cam hil-laddiad

Dyw hil-laddiad byth yn digwydd ar hap. Mae yna bob amser set o amgylchiadau sy'n digwydd neu sy'n cael eu creu er mwyn datblygu amgylchiadau lle gall hil-laddiad ddigwydd.

Datblygodd Gregory H Stanton, Llywydd Genocide Watch, 10 cam hil-laddiad sy'n esbonio'r camau gwahanol sy'n arwain at hil-laddiad.

1. **Dosbarthiad**
2. **Symboleiddio**
3. **Gwahaniaethu**
4. **Dad-ddyneiddio**
5. **Trefnu**
6. **Polareiddio**
7. **Paratoi**
8. **Erlid**
9. **Difa**
10. **Gwadu**

**Rhagor o fanylion: hmd.org.uk/tenstages**

# Trosolwg o'r Holocost a hil-laddiadau mwy diweddar

Ers 1948, mae tribiwnlysoedd y Cenhedloedd Unedig a'r Llys Troseddol Rhyngwladol wedi datgan bod hil-laddiad wedi digwydd yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur, ac rydyn ni'n nodi'r rhain oll ynghyd â'r Holocost ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost.

## Yr Holocost

Roedd yr Holocost yn dilyn blynyddoedd o erledigaeth ar Iddewon gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr. Ymgais i ddinistrio holl Iddewon Ewrop oedd yr Holocost, ac erbyn y diwedd, cafodd 6 miliwn o Iddewon eu llofruddio mewn ghettos, trwy saethu torfol, gwersylloedd crynhoi a gwersylloedd marwolaeth. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/holocaust**

## Hil-laddiad Roma

Cafodd rhwng 200,000 a 500,000 o bobl Roma a Sinti eu llofruddio gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr. Mae profiad poblogaethau Roma a Sinti yn debyg iawn i brofiad Iddewon Ewrop - gyda'r naill a'r llall wedi'u targedu ar sail eu hil ac wedi dioddef canrifoedd o wahaniaethu.
Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/romagenocide**

Llun: Auschwitz © Rodrigo Paredes

## Erledigaeth y Natsïaid yn erbyn grwpiau eraill

Roedd y Natsïaid yn erlid llawer o bobl eraill ochr yn ochr â'r Iddewon. Buon nhw'n erlid llawer roedden nhw'n credu eu bod, fel yr Iddewon, yn bygwth eu delfryd o'r hil Ariaidd genetig-bur. Cafodd pobl ddu, pobl anabl, pobl hoyw, gwrthwynebwyr gwleidyddol, a grwpiau eraill, i gyd eu herlid a llofruddiwyd cannoedd ar filoedd ohonynt. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/nazipersecution**

## Cambodia

Yn 1975, fe wnaeth y Khmer Rouge gipio grym yn Cambodia dan eu harweinydd Pol Pot. Gan wahardd pob dosbarth cymdeithasol, dylanwadau Gorllewinol a hawliau sifil, gorfodwyd poblogaeth gyfan i lafurio ar ffermydd cyfunol. Cafodd tua 2 filiwn o bobl eu llofruddio, trwy ddienyddio, clefydau, gorflinder a newyn. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/cambodia**

## Rwanda


Am gan niwrnod rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 1994, cafodd tua 1 miliwn o bobl Tutsi a Hutus cymedrol eu lladd gan lofruddwyr gyda machetes a phastynau. Pobl roedden nhw'n eu hadnabod oedd llawer o'r llofruddwyr hyn – cymdogion, cydweithwyr, cyn-ffrindiau, hyd yn oed perthnasau trwy briodas. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/rwanda**

## Bosnia

Ym 1992 datganodd Bosnia ei hannibyniaeth oddi wrth Iwgoslafia, gan arwain at ryfel rhwng poblogaethau Bosniak (Mwslimaid Bosnia), Croatiaid a Serbiaid y wlad. Wedi ymgyrch o 'lanhau ethnig' gan luoedd Serbiaid Bosnia, llofruddiwyd 8,000 o ddynion a bechgyn Bosnia yn Srebrenica mewn cwta deuddydd ym mis Gorffennaf 1995. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/bosnia**

## Darfur

Yn 2003, dechreuodd gwrthdaro rhwng ffermwyr du Affrica a phoblogaethau Arabaidd crwydrol lliw croen goleuach yn Darfur, gorllewin Swdan. Roedd Llywodraeth Sudan yn cefnogi'r militia Arabaidd arfog, y Janjaweed, a ddinistriodd gannoedd o bentrefi a llofruddio miloedd o bobl. Cafodd tua 200,000 o sifiliaid eu llofruddio a rhyw 2.5 miliwn o bobl eu dadleoli. Rhagor o wybodaeth: **hmd.org.uk/darfur**



Llun: Cofeb Hil-laddiad Srebrenica © Julian Buijzen

# Goroeswyr yr Holocost a hil-laddiad yn eu geiriau eu hunain



*'Os nad yw'r byd yn newid nawr, os nad yw'r byd yn agor ei ddrysau a'i ffenestri, os nad yw'n adeiladu heddwch ... yna alla i ddim esbonio pam lwyddais i oroesi Auschwitz, Bergen-Belsen, a Ravensbrück.'*

Ceija Stojka, goroeswr hil-laddiad Roma

*'Alla i ddim anghofio'r gorffennol. Mae fy iechyd corfforol wedi dioddef o ganlyniad i'r diffyg maeth, y gorweithio a'r holl guro ... a dwi'n dal i gario'r creithiau emosiynol hefyd. Dwi'n dioddef o orbryder a hunllefau wrth gael fy atgoffa o'r hyn yr es i drwyddo.'*

Sophari Ashley, goroeswr hil-laddiad Cambodia


‘O holl aelodau’r teulu, naw plentyn, mam a dad, dim ond fi a fy mrawd Alec wnaeth oroesi ... Y cyfan alla i ei wneud yw siarad am fy mhrofiadau a sôn am yr hyn ddigwyddodd wrth bwy bynnag sydd am wrando. Hyd yn oed os taw dim ond un person sy’n clywed fy stori i neu stori rywun arall, mae’n gwneud byd o wahaniaeth.’
Ivor Perl BEM, goroeswr yr Holocost
hmd.org.uk

*‘Cyn dienyddiad, roeddem yn cael ein gorfodi i ddiosg ein dillad. Fe wnaeth un o’r milwyr glymu ein dwylo y tu ôl i’n cefnau. Dyna pryd sylweddolais i, yn fachgen 17 oed, mai dyma’r diwedd.’*

*Nedžad Avdić, goroeswr hil-laddiad Bosnia*





*‘Gadawodd y trên olaf i Auschwitz ar 5 Ionawr 1945, fel y deallais yn ddiweddarach, ac ym mis Mawrth, cafodd y bobl olaf eu cludo i Sachsenhausen, Ravensbrück, a Theresienstadt. Fydden nhw’n ein saethu ni? Neu a oedden ni wedi dod yn ddigon pwysig iddyn nhw ar gyfer y cyfnod oedd i ddod?’*

Gad Beck, goroeswr hoyw yr Holocost

*‘Un diwrnod, des i adre o’r ysgol... a gweld... bod milwyr wedi lladd fy nhad i... roedden nhw wedi ei ladd achos ein bod ni’n perthyn i lwyth y Zaghawa. Roedd y Llywodraeth wedi dweud nad oedd pobl Zaghawa yn perthyn i Darfur.’*

Abdul Aziz Mustafa, goroeswr hil-laddiad Darfur

*‘Roedd gen i lond twll o ofn. Byddwn i’n dychmygu machete yn torri fy ngwddf trwy’r amser ... roeddwn i wedi f’arswydo gan ofn ac wedi colli pob gobaith o oroesi. Ond wedyn, gyrhaeddais i’r pwynt lle nad oeddwn i’n ofni mwyach. Doedd gen i ddim ofn marwolaeth. Byw neu farw, beth oedd ots?’*



Freddy Mutanguha,
goroeswr yr hil-laddiad yn
erbyn llwyth y Tutsi yn Rwanda

**Darllenwch straeon bywyd pobl sydd wedi’u heffeithio gan hil-laddiad: hmd.org.uk/lifestories**

# Erledigaeth ar sail hunaniaeth heddiw

Yn anffodus, mae casineb, rhagfarn ac erledigaeth ar sail hunaniaeth yn parhau heddiw yn y DU ac mewn gwledydd eraill:

Disgrifiwyd y broses o drosglwyddo plant Wcráin i Rwsia gan yr awdurdodau yn Rwsia fel un sydd â'r nod o *'ddifodi pob cyswllt a nodwedd o'u hunaniaeth Wcreineg.'*

Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop

*'Mae digwyddiadau gwrthsemitig wedi codi i'w lefel uchaf ar gofnod yn yr Unol Daleithiau a phrin yw'r arwyddion bod gwrthsemitiaeth ar drai yn fyd-eang.'*

Anti-Defamation League / PBS

Mae gan Uganda un o gyfreithiau gwrth-LHDT llyma'r byd, *'Mae'r ffaith bod y mesur gwrth-hoyw llym a gwahaniaethol bellach yn gyfraith gwlad yn codi ias. Mae'n ffordd o dorri hawliau pobl LHDT a'r boblogaeth ehangach mewn ffordd systematig'*

Swyddfa Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig

*'… mae gwahaniaethu, iaith casineb yn y cyfryngau torfol, a derbyn ymosodiadau treisgar yn erbyn pobl Roma wedi dod yn ffordd o fyw i'r mwyafrif yn Rwmania.'*

Canolfan Hawliau Roma Ewropeaidd

Cafodd milwyr Myanmar eu gorchymyn i ddileu pentrefi Mwslimaidd Rohingya, er mwyn *‘lladd pawb, boed yn blant neu’n oedolion’*

Sky News

Mae ymchwil gan Brifysgol Manceinion, Prifysgol St Andrews a King’s College Llundain yn dangos bod dros draean o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau crefyddol lleiafrifol yng ngwledydd Prydain wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad hiliol.

Mae Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn galw ar Iran *‘i atal erledigaeth ac aflonyddu ar leiafrifoedd crefyddol a rhoi terfyn ar ddefnyddio crefydd i gwtogi ar hawliau sylfaenol’.*

*‘Eu nod yw dinistrio pawb’,* pobl Uyghur yn wynebu carchar, artaith, trais rhywiol a sterileiddio gorfodol gan lywodraeth China

BBC

*‘Mae Tatariaid Crimea ... yn dioddef sawl achos o droseddau difrifol yn erbyn hawliau dynol, erledigaeth, gwahaniaethu, a stigmateiddio gan awdurdodau meddiannol Rwsia’*

Cyngor Ewrop

Llun: Ffoaduriaid Rohingya yn ciwio yng ngwersyll ffoaduriaid Cox Bazar, Bangladesh © Allison Joyce / Stringer / Getty

# Sut i gymryd rhan yn Niwrnod Cofio'r Holocost

**Sut allwch chi gymryd rhan:**

- Trefnu gweithgaredd: ewch i **hmd.org.uk** a rhoi gwybod inni am eich gweithgaredd – **hmd.org.uk/letusknow**
- Mynychu gweithgaredd: defnyddiwch ein map gweithgareddau i ddod o hyd i weithgaredd Diwrnod Cofio'r Holocost yn eich ardal chi – **hmd.org.uk/map**
- Tanysgrifio i'n cylchlythyr: **hmd.org.uk/newsletter**
- Archwilio ein hadnoddau rhad ac am ddim: gan gynnwys deunyddiau ar gyfer ysgolion, ffilmiau, cerddi a straeon bywyd – **hmd.org.uk/resources**
- Gweithredu: helpwch i atal achosion o erledigaeth a gwahaniaethu heddiw – **hmd.org.uk/takeaction**
- Goleuo'r tywyllwch: beth am gynnau cannwyll a'i rhoi yn eich ffenestr neu oleuo adeilad yn borffor ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost – **hmd.org.uk/lightthedarkness**
- Nodi Diwrnod Cofio'r Holocost ar-lein: ewch i **hmd.org.uk/hmdonline** am awgrymiadau a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: HMD_UK HMD.UK HolocaustMemorialDayTrust

**hmd.org.uk**

# Adnoddau a chymorth Diwrnod Cofio'r Holocost

Mae gennym lond gwlad o adnoddau i bob oedran a sefydliad i'ch helpu i gynnal gweithgareddau Diwrnod Cofio'r Holocost a dysgu mwy am yr Holocost a hil-laddiad. Mae ein gwefan yn cynnwys:

- Gwersi ysgol, trefn gwasanaethau a phrosiectau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac anghenion addysgol arbennig ac anabledd
- Adnoddau'r cyfryngau cymdeithasol a thempledi blog
- Canllawiau cymryd rhan ar gyfer: Sinemâu, Colegau a Phrifysgolion, Gwasanaethau Brys, Grwpiau Ffydd a Rhyng-ffydd, Llyfrgelloedd, Awdurdodau Lleol, Amgueddfeydd ac Orielau, Carchardai, Undebau Llafur, a Gweithleoedd
- Ffilmiau, straeon bywyd, arteffactau, cerddi, posteri a llyfrynnau a llawer mwy

Am gymorth neu gyngor, cysylltwch â'n tîm allgymorth yn **enquiries@hmd.org.uk**

# Trefnwyr Gweithgareddau Diwrnod Cofio'r Holocost ledled y DU

*'Mae nodi'r Diwrnod... a meddwl am... yr hyn ddigwyddodd adeg yr Holocost, ac yn Bosnia a Rwanda a Darfur, yn gwneud i bobl… feddwl y tu hwnt i'w hunain, yn gwneud iddyn nhw feddwl am faterion cymdeithasol llawer mwy.'*
Gary Milling, Llywodraethwr, CEM Magilligan, Gogledd Iwerddon

*'Fe wnaeth y siaradwyr ein hatgoffa o drychinebau eraill sydd wedi taro'r byd ers yr Holocost a'n hatgoffa y bydd gweithredoedd erchyll yn parhau os na wnawn ni drafod a rhoi cyhoeddusrwydd i bethau fel hyn.'* Mynychwr digwyddiadau Diwrnod Cofio'r Holocost, Bournemouth a Poole, Lloegr

*'Hwn oedd fy nigwyddiad cofio cynta i, a bues i'n myfyrio ar wir raddfa'r Holocost. Dwi'n awyddus i ddysgu mwy am hil-laddiadau dilynol a sefyll yn erbyn rhagfarn heddiw.'*
Theo Frater, Mynychwr digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost, Prifysgol Glasgow

*'Gall digwyddiadau fel hyn helpu'r gymuned i ddod at ei gilydd a meddwl pa mor bell rydyn ni wedi symud ymlaen o bosib, ac atal y pethau hyn rhag digwydd eto.'* Mynychwyr digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost, Sefydliad Diwylliannol Mwslimaidd Cymreig

# Gweithredu

Mae nodi Diwrnod Cofio'r Holocost yn helpu i greu empathi, meithrin dealltwriaeth a chreu cymunedau gwell a mwy diogel. Ond mae hefyd yn alwad i weithredu, i unigolion, cymunedau a sefydliadau gymryd pa bynnag gamau posib i atal erledigaeth a gwahaniaethu ar sail hunaniaeth.

Mae ein gwefan yn cynnwys rhestr o awgrymiadau a syniadau ar sut allwch chi weithredu i atal erledigaeth yn y DU ac o amgylch y byd, a gweld beth mae eraill wedi'i wneud. Mae'n cynnwys camau sy'n para pum munud, awr, a mwy, yn dibynnu ar faint o amser sydd gennych chi: **hmd.org.uk/takeaction**

*'Penderfynais y byddwn i'n gwneud fy ngorau glas i helpu i greu mwy o gytgord, parch at eraill a dealltwriaeth ymhlith pobl. Mae'n benderfyniad nad ydw i wedi gwyro oddi wrtho.'*

Y diweddar Syr Ben Helfgott, goroeswr yr Holocost a chyn-Lywydd Anrhydeddus, Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost, 1929-2023

# Atebion cryno i gwestiynau mawr

Mae gwybod y ffeithiau am yr Holocost a hil-laddiad yn hanfodol, ac mae ein hatebion cryno i gwestiynau mawr yn darparu gwybodaeth allweddol i bawb ei dysgu a'i rhannu.

## Beth oedd yr Holocost?

Ymgais gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr i ddifa holl Iddewon Ewrop oedd yr Holocost. Digwyddodd mewn 22 o wledydd, gyda chyfraniad gweithredol rhai o ddinasyddion y gwledydd hynny. Gan adeiladu ar ganrifoedd o wrthsemitiaeth (casineb gwrth-Iddewig), dechreuodd erledigaeth y bobl Iddewig o'r eiliad y daeth y Natsïaid i rym ym 1933.

## Faint o Iddewon gafodd eu llofruddio yn ystod yr Holocost?

Lladdwyd 6 miliwn o ddynion, menywod a phlant Iddewig gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr.

## Beth yw Gwrthsemitiaeth?

Gweithred o wahaniaethu neu gasineb tuag at bobl Iddewig (unigolion neu sefydliad) neu bobl sydd â threftadaeth Iddewig, yr ystyrir eu bod yn Iddewig neu sy'n gweithio'n agos gyda'r gymuned Iddewig.

## Pa grwpiau eraill o bobl gafodd eu herlid gan y Natsïaid?

Targedwyd yr Iddewon a'r Roma ar gyfer difodiant llwyr; ond bu'r Natsïaid yn erlid eraill hefyd, gan gynnwys pobl anabl, pobl LHDT+, pobl ddu, Tystion Jehofa, dinasyddion a charcharorion rhyfel Pwylaidd a Slafig, undebwyr llafur a llawer mwy nad oedd yn cydymffurfio â delfrydau'r Natsïaid. Cafodd miliynau o bobl eu heffeithio.

## Ydy gwahaniaethu ar sail hunaniaeth yn dal i fodoli?

Ni wnaeth achosion o wahaniaethu yn erbyn rhan o hunaniaeth unigolyn stopio gyda'r Holocost - mae'n dal i ddigwydd yn y byd heddiw.

## Beth yw hil-laddiad?

Ymgais fwriadol i ddinistrio neu ddifa grŵp penodol o bobl yn seiliedig ar un neu fwy o nodweddion personol yw hil-laddiad.

## Sut mae hil-laddiadau yn digwydd?

Mae sawl cam clir yn perthyn i hil-laddiad, yn cynnwys camau gwahaniaethu, hyd at lofruddiaeth a gwadu hil-laddiad. Dydy hil-laddiad ddim yn anochel, ac mae modd rhoi terfyn arno.

## Ble mae hil-laddiadau wedi digwydd?

Ers yr Holocost, cafwyd achosion o hil-laddiadau mewn gwledydd eraill fel Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

**Elusen wedi'i sefydlu gan Lywodraeth San Steffan yw Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost (HMDT), i hyrwyddo a chefnogi Diwrnod Cofio'r Holocost yn y DU. Mae'r diwrnod arbennig hwn yn ein hannog i gofio mewn byd sydd wedi'i greithio gan hil-laddiad. Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn dod at ei gilydd i ddysgu mwy am y gorffennol ac i weithredu er budd dyfodol gwell.**


**hmd.org.uk**
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029

HMD_UK

HMD.UK

HolocaustMemorialDayTrust

PO Box 61074, Llundain, SE1P 5BX



Noddwr: Cyn-Dywysog Cymru
Rhif elusen: 1109348 (Cymru a Lloegr)
SC051197 (Yr Alban)



**Cefnogir Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost gan:**

Department for Levelling Up, Housing & Communities

(yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau)


**Cefnogi ein gwaith**
Sganiwch y cod QR hwn i gyfrannu at y gost o ddarparu adnoddau tebyg i'r llyfryn hwn.